

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 6 Rhagfyr 2018

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn bresennol:

Aelodau:

Mark Hadley (MH) – Cadeirydd y FfMLI
Karen Burch (KB) – Is-gadeirydd y FfMLI
Jillie Gardiner (JG)
Geoff Williams (GW)
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Paul Barrett (PB)
Jim Shadbolt (JS) (aelod newydd o'r cyfarfod hwn ymlaen)

Ysgrifennydd (interim)

Caroline Ferguson (CF) – (Rheolwr Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad CSC)

Ymgynghorwyr/ Sylwedyddion/Siaradwyr/Aelodau o'r Cyhoedd

Lucy Pugh (LP) - Swyddog Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad CSC)
Gruffydd Rees (GR) – Parcmon Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Y Cyng. Peter Hughes Griffiths (PHG) – Aelod o Fwrdd Gweithredol CSC
Rob Williams (RW) - TRF

Ymddiheuriadau:

Aelodau:

Gerald Brown (GB)
David Stacey (DS)
Caroline Evans (CE)
Glyn Evans (GE)

Ymgynghorwyr/ Sylwedyddion:

Sam Palmer (SP) - CSC
Russell Jones – CNC
Allan Haskins
Neil Thomas – CSC
Y Cyng. Hazel Evans
Glyn Lloyd-Jones (GLJ) – CNC
Ian Maberly – FfMLI PCBB
Martin Murray – CSC

Absennol:

Jane Evans
Michael Jones

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAM GWEITHREDU
<p>Eitemau 1 – Croeso a Chyflwyniad</p> <p>Croesawodd MH bawb i'r cyfarfod a rhoddwyd y cyfle i bawb o gwmpas y bwrdd gyflwyno'i hun.</p>	

<p>Eitem 2 – Aelodau Newydd/Ymddiswyddiadau</p> <p>Darllenwyd cais Jim Shadbolt i ymuno â'r FfMLI. Fe'i hetholwyd ar y FfMLI, ar gynnig MH gyda PB yn eilio.</p>	
<p>Eitem 3 - Ymddiheuriadau</p> <p>Cafodd ymddiheuriadau eu cymryd a'u cofnodi.</p>	
<p>Eitem 4 – Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion</p> <p>Roeddent eisoes wedi cael eu cymeradwyo trwy'r e-bost. Bwriedir parhau â'r dull hwn yn y dyfodol gan ei fod yn arbed amser yn ystod cyfarfodydd y FfMLI a bod y cofnodion yn gallu cael eu lanlwytho'n gyflymach i'r wefan.</p> <p>Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol yn dal i gael eu cynnwys pan anfonir yr agenda.</p> <p>Eitem i gael ei thynnu oddi ar agendâu yn y dyfodol.</p>	CF
<p>Eitem 5 – Materion yn codi o'r Cofnodion – nad ydynt yn Eitemau ar yr Agenda fel arall</p> <p><u>Gwefan y FfMLI</u> Trafodwyd hyn a nodwyd fod y wefan wedi'i diweddarau ar wahân i gofnodion mis Mehefin, a fydd yn cael eu hychwanegu cyn gynted a'u bod ar gael. Bydd dyddiadau cyfarfodydd y FfMLI yn y dyfodol yn cael eu hychwanegu.</p> <p><u>CNC</u> Yn y cofnodion blaenorol (Eitem 5.9) nodwyd y byddai MH yn gwirio am e-bost a anfonwyd at CNC. MH: Cafodd hwn ei anfon, ond cyfarfod ar gyfer Cymdeithas Ceffylau Prydain yn unig yw'r cyfarfod a godwyd gan Jane Evans.</p> <p><u>Adroddiad Llwybrau Ceffylau</u> KB: Wedi cyfarfod â LP i geisio datrys yr anghysonderau yn hydoedd llwybrau ceffylau rhwng Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2007-17 a drafft y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Cytunwyd y byddai'n amhosibl datrys yr holl anghysonderau gan nad oedd ffordd o ganfod sut y cafodd y ffigyrau eu deillio yn yr adroddiad cynharach. KB: Hoffai pe bai'r adroddiad sy'n dangos llwybrau ceffylau sydd ar agor/ar gau hefyd yn dangos problemau ar y rhai sydd ar gau a pha un a fyddai'n bosibl eu hailagor.</p> <p><u>Diweddariad yr Ymgynghorydd / Archifau</u> KB: Beth yw'r cynnydd gydag Rhydodyn? CF: Mae'r ymgynghorydd yn dal i gynnal ymchwil ar hyn o bryd. JG: Mae mapiau a llyfrau atodlenni'r Ddeddf Cyllid wedi cael eu symud i Hwlfordd bellach. PHG: Wedi ymweld ag adeilad newydd yr archifdy (ger Maes Parcio San Pedr yng Nghaerfyrddin). Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda ac mae'r adeilad i fod i agor yn hydref 2019.</p>	LP LP

Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth

Mae'r cyfarfod a oedd wedi'i amserlennu ar gyfer 7 Tachwedd bellach wedi cael ei ail-amserlennu ar gyfer 18 Rhag.

KB: Yn methu â bod yn bresennol.

GW: Yn bwriadu bod yn bresennol yn lle KB.

MH: Yn dilyn trafodaethau yn ystod cyfarfod ORPA yn swyddfeydd Mynydd Mawr, yn bwriadu gofyn am gofrestr ganolog o Orchmynion Rheoleiddio Traffig.

MH

Mynediad Hamdden at Ddŵr, y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a Chynrychiolaeth ar y FfMLI

GW: Dylai'r FfMLI ymdrin â mynediad at ddŵr, nid arno o anghenraid.

GW: A ddylem wahodd cynrychiolydd o Canŵ Cymru i'r FfMLI?

CF: Maent yn ymgynghorai ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy felly byddant yn gwybod am y FfMLI a'u gallu i gyfrannu os ydynt yn dymuno.

Unrhyw Fusnes Arall

MH: Diweddariad ar y gyllideb o £16,000 sy'n cael ei gwario ar 5 llwybr cerbydau – rhestr fel a ganlyn:

Llwybr a Lleoliad	Gwaith yn yr Arfaeth	Cost Amcangyfrifedig
Pyllau dŵr Brechfa (UCR, SN566343)	clirio a rhoi wyneb newydd	£10,262
Nantyllyn (Cilffordd 15/40, SN552324)	rhoi wyneb newydd	£1,370
Abergorlech (Cilffordd 15/31, SN566356)	clirio	£1,525
Myddfai (UCR, SN766327)	clirio a rhoi wyneb newydd	£3,195
Dunlop Hill, Brechfa (UCR, SN542289)	clirio	£1,040
Cyfanswm gwariant ar lwybrau:		£17,392

Byddaf yn gofyn i Alan am ddiweddariad ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud.

MH

Eitem 6 – Timau Cynnal a Chadw a Chyfreithiol Cefn Gwlad CSC

Amlinellodd CF a PHG y sefyllfa gyfredol. Mae uno'r gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad yn dal i fod yn "waith ar y gweill".

GR: Mae'n dal i ymddangos mai'r cynllun yw y bydd 4 parcmon yn lle 5.

MH: Dylai'r FfMLI godi hynny fel pryder.

PHG: Mae ymgynghoriad ynghylch y gyllideb ddrafft yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

GW: Dylid ysgrifennu "llythyr mynegi pryder" oddi wrth y FfMLI.

MH: A'i anfon at bwy?

PHG: Dylid ei anfon at Chris Moore a chopi at y Prif Weithredwr.

CF: Dylai hyn gael ei drafod yn y cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth ar 18 Rhagfyr i sicrhau bod gostyngiad yn niferoedd y Parcmy'n yn cael ei gynnig yn bendant cyn ysgrifennu i fynegi pryderon

PHG: Mae angen i'r Cyngor arbed £28m dros y 3 blynedd nesaf.

MH/CF

<p>GR: Bydd yn anodd cynnal lefelau'r materion sydd wedi'u datrys gyda llai o barcmyn. Mae twristiaeth yn hanfodol i'r Sir, ac mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn hanfodol i hynny.</p>	
<p>Eitem 7 – Adroddiad ar Faterion y Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus</p> <p>RL: Mae nifer y materion cyfreithiol a chynnal a chadw ar y lefel uchaf ers i'r FfMLI ddechrau cael adroddiadau ym mis Mai 2016.</p> <p>KB: A ellir cyhoeddi'r ystadegau?</p> <p>CF: Ni fyddai'n briodol eu cylchredeg ymhlith y cyhoedd; cynhyrchir y ffigyrau manwl i helpu i hysbysu'r FfMLI yn eu rôl statudol.</p> <p>RL: Ond byddai'n iawn rhannu'r prif ffigyrau a'r tueddiadau? CYTUNWYD.</p> <p>GW: Mae Sir Gaerfyrddin ar flaen y gad trwy fod â'r ystadegau hyn. Nid yw'r un FfMLI arall yng Nghymru'n cael y fath wybodaeth.</p> <p>RL: Mae'n werth nodi bod ffigyrau'r Dangosydd Perfformiad (arolwg gyda sampl o 5% sy'n dangos hydroedd o lwybrau sydd ar agor, yn hygyrch, ac wedi'u harwyddo) wedi gostwng eleni.</p> <p>GR: Mae system sgorio blaenoriaethu materion yn dylanwadu ar y drefn ar gyfer ymdrin â materion.</p>	
<p>Eitem 8 – Arddangosiad o'r System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS)</p> <p>Rhoddodd LP arddangosiad o CAMS, gan ganolbwyntio ar feysydd a oedd wedi cael eu trafod mewn cyfarfodydd blaenorol megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dangos tir Glastir a nodi Hawliau Tramwy Cyhoeddus a oedd wedi cau ar y tir hwn • Dangos Taith Llinell Calon Cymru (HoWLT) a nodi'r llwybrau sy'n rhan o'r Daith • Dangos Statws Gweithredol Llwybrau Ceffylau trwy godau lliwiau ar y map <p>LP: Er bod yr wybodaeth am Statws Gweithredol yn ddefnyddiol iawn, nid ydym yn bwriadu ei rhannu'n eang ar hyn o bryd gan y bydd yn galluogi pobl i ganolbwyntio ar lwybrau nad ydynt ar agor a chan nad oes gennym yr adnoddau i ymdrin â hyn.</p> <p>KB: Allwn ni rannu'r llwybrau sydd ar agor yn unig?</p> <p>LP: O bosibl, ond rydym am ochel rhag camarwain pobl trwy roi'r statws gweithredol anghywir os yw amgylchiadau wedi newid a ninnau heb fod yn ymwybodol.</p> <p>RL: Mae cyfrifoldeb ar y cyhoedd hefyd, i hysbysu CSC ynghylch materion, fel bod yr wybodaeth yn gallu cael ei diweddarau.</p> <p>Cytunwyd mai un o ddyheadau'r FfMLI yw bod â'r llwybrau agored wedi'u mapio (gan dybio bod digon o gyllideb a staff i gynnal y cofnodion).</p> <p>GW: Mae rhywfaint o gyllid Taith Llinell Calon Cymru ar gael ar gyfer cynnal a chadw – mi wnaf ddarganfod beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd.</p> <p>CF: Oni bai bod y sefyllfa wedi newid ers i'r cynllun ddechrau, prosiect a ariennir â chyllid torfol yw Taith Llinell Calon Cymru felly nid oes ond cymaint o arian ag sydd wedi cael ei roi.</p> <p>Soniwyd hefyd bod modd lawrlwytho ffeiliau GPX ar gyfer darnau o Daith Llinell Calon Cymru o'r wefan http://heartofwaleslinetrail.co.uk/.</p>	<p>GW</p>

Eitem 9 – Cynhadledd y Fforwm Mynediad Lleol 15 Tachwedd 2018

GW: Roedd nifer dda'n bresennol yn y gynhadledd. Pwyntiau / awgrymiadau'n codi:

- Mae CNC yn ad-drefnu'n 6 ardal gyda chynrychiolydd ar gyfer pob ardal. Bydd y cynrychiolwyr ardal hyn yn rhoi sylw i faterion y Fforwm Mynediad Lleol/yn cyfrannu atynt.
- Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynghylch cynigion i ddisodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yng Nghymru. Rhan o'r cynllun newydd yw gwobrwyo 'Nwyddau Cyhoeddus'.
- Dylai Fforymau Mynediad Lleol gynhyrchu rhaglen waith am y 12 mis diwethaf.
- Dylai Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol gael ei gynhyrchu gan yr Awdurdod Lleol.
- Dylai Fforymau Mynediad Lleol gynnal cyswllt â Chynghorau Cymuned.
- Dylai unrhyw gyngor ffurfiol a gynigir i'r Cyngor fod ar ffurf llythyr at y Prif Weithredwr.
- Dylai Fforymau Mynediad Lleol gysylltu â Fforymau Mynediad Lleol cyfagos.

MH: Parthed Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol – rwy'n fodlon parhau i'w lunio.

MH: Mae Cymdeithas y Cerddwyr yn gofyn yn swyddogol am ddal arian yn ôl mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol os nad yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar agor.

CF: Rhoddodd Mark Stafford-Tolley (Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, CS Powys) gyflwyniad yn y digwyddiad a oedd yn mynnu y dylai Hawliau Tramwy Cyhoeddus gael eu hymgorffori mewn cyllid ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru fel y mae ar hyn o bryd trwy Drawsgydymffurfio yn Lloegr. Dylai'r fersiwn newydd o Gynllun y Taliad Sengl a gynigir gan Lywodraeth Cymru gynnwys cadw pob Hawl Dramwy Gyhoeddus ar agor fel gofyniad sylfaenol ar gyfer cyllid. Anogodd y dylai ymatebion i'r ymgynghoriad gynnwys y cynnig hwn. I ategu'r awgrym hwn – datgelodd cyfarfod rheoli Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Cymru gyfan yn ddiweddar nad oes Bil Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar wahân yn cael ei gynnig yn dilyn ymlaen o Bapur Gwyrdd 2015 ar Fynediad oherwydd cyfyngiadau amser a grëwyd gan Brexit – bydd materion Mynediad yn cael eu cynnwys mewn Biliau eraill megis Amaethyddiaeth.

Eitem 10 – Llwybr Dyffryn Tywi

MH: Dim diweddariad wedi'i ddarparu gan Sam Palmer. Bwriedir gofyn am un.

GW: Wedi bod yn bresennol mewn cyflwyniad yn Llandeilo, a drefnwyd gan y Gymdeithas Ddinesig. Gofynnwyd cwestiynau am gyllid, nad oedd SP yn gallu eu hateb.

JG: Mae arian cyhoeddus yn cael ei wario ar lwybrau nad ydynt ar gael i holl ddefnyddwyr y ffyrdd sy'n agored i niwed megis marchogion? A ddylai Llwybr Dyffryn Tywi gael ei ddwyn i sylw Cymdeithas Ceffylau Prydain?

KB: Dylai hynny ddod oddi wrth unigolion mewn gwirionedd yn hytrach na'r Fforwm Mynediad Lleol.

MH

Eitem 11 – Y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

CF: Mae'r drafft bellach wedi dod yn ôl o'r Uned Gyfieithu yn dilyn cymeradwyaeth yng nghyfarfod Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Gobeithio y bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyn y Nadolig. Mae'r ymgynghorydd wedi cael ei hysbysu bod y cyfieithiad wedi'i gwblhau (cyfnod ymgynghori o 12 wythnos).

Diolch i PHG a roddodd ganmoliaeth uchel i'r staff a'r adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus wrth i ddrafft y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gael ei ystyried yng nghyfarfod Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

RL: Nododd fod cyfathrebu diweddar ynghylch llwybrau yn ardal Whitemill wedi cynnwys llythyr oddi wrth Gynghorydd at Martin Murray yn mynegi ei ddealltwriaeth am y materion y mae'r adain yn eu hwynebu – mae'n ymddangos bod y neges yn cyrraedd.

Testun wedi'i newid i Wirfoddolwyr

PB: Mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus gan wirfoddolwyr – byddai'n braf pe bai rhywfaint o gydnabyddiaeth i'r cyfraniad.

CF: Dylai fod yn bosibl gwneud datganiad i'r wasg am gyflawniadau gwirfoddolwyr, a byddai'r Awdurdod yn awyddus i gydnabod cyfraniadau. Hefyd, mae placiau Cerddwyr wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol, wedi cael eu rhoi yn sownd ar ddodrefn a.y.b. i ddangos pa lwybrau y cyfrannwyd atynt.

PB: Byddai llythyr ffurfiol yn mynegi diolch yn gweithio hefyd.

JS: Mae Cerddwyr Dinefwr yn gobeithio gweithio gyda Pharcymyn a CNC ym mis Ionawr. Faint o glirio all gwirfoddolwyr ei wneud heb unrhyw oruchwyliaeth?

CF: Mân waith tocio gyda siswrn yn unig os nad ydynt yn gweithio mewn partneriaeth gyda Pharcymyn.

JS: A allai treuliau teithio gwirfoddolwyr gael eu talu?

MH: Byddaf yn codi treuliau gwirfoddolwyr a chydabyddiaeth i'w cyfraniad yn y cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth.

MH

Eitem 12 – Llinellau Melyn Dwbl Pen-bre

KB: Wedi bod mewn cysylltiad â Lee Waters AC. Mae'r Cyngor yn cynnig Maes Parcio'r Pysgotwyr (ger y traeth) fel maes parcio i farchogion ond mae hwnnw'n anaddas gan bod yr hewl sy'n arwain yno'n gul iawn, ac os nad oes lleoedd gwag yn y maes parcio nid oes lle i droi cerbyd a threlar o gwmpas felly gallent fynd yn sownd!

Cadw'r eitem ar yr agenda ar gyfer y tro nesaf.

Eitem 13 – Diweddariad ar yr Isbwyllgor Cilffordd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOAT)/Llwybr Arall â Mynediad Cyhoeddus (ORPA)

MH: Wedi cael 2 gyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor ym Mharc Coetir Mynydd Mawr.

- Angen gwirio 79 o lwybrau
- Mae 34 o lwybrau'n iawn
- Mae 37 o lwybrau'n rhai â blaenoriaeth isel, e.e. dim llwybrau drwodd
- Mae 47 o lwybrau'n gilffyrdd.

Sut orau i arolygu er mwyn casglu data sy'n ddefnyddiol i'r ALI? A oes ffurflen arolwg ar gael?

<p>CF: Oes, ond gall fod yn werth datblygu ffurflen fwy penodol ar gyfer y prosiect hwn.</p> <p>RL: Mae angen i ni fod yn eglur pa ganlyniad ydym yn anelu amdano. Mae angen eistedd i lawr gyda'r Is-adran Priffyrdd a gweld beth sy'n gyraeddadwy/yn ddefnyddiol yn realistig – gellid gwneud hyn trwy'r cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth.</p> <p>CF: Byddai'n ddefnyddiol i'r adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus gael arolygon cyflwr ar gyfer Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig.</p> <p>KB: A all Penaethiaid Gwasanaeth gyfarwyddo rhywun o'r Is-adran Priffyrdd i fynychu'r cyfarfodydd BOAT/ORPA?</p> <p>CF: Gallwn drafod y syniad ar gyfer y prosiect a'r ymwneud gan yr Is-adran Priffyrdd yn y cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth.</p> <p>MH: Mae'r wefan Trailwise 2 (https://www.trailwise2.co.uk/) yn dangos llwybrau sydd ar agor ac ar gael (ar gael i aelodau GLASS yn unig).</p> <p>MR: Gallai fod yn risg rhannu manylion llwybrau agored â'r cyhoedd gan y gallai'r ardal gael ei gorlethu â phobl yn teithio i ddefnyddio'r llwybrau.</p> <p>MH: Mae'r llwybrau ar gael ar fapiau'r Arolwg Ordnans a.y.b. beth bynnag</p>	
<p>Eitem 14 – Cyflwyniad Datganedig dan Gyfraith Gyffredin (EDCL)</p> <p>CF: Rhoddodd amlinelliad yn egluro beth ydyw. Ni chafwyd y ddogfennaeth mewn pryd i'w chylchredeg i aelodau ar gyfer y cyfarfod hwn. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chylchredeg, a'i thrafod yn y cyfarfod nesaf.</p>	
<p>Eitem 15 – Diweddariad ar Bontydd</p> <p>GR: Mae'r pontydd ar y rhaglen fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pant-y-rhedyn (37/63) • Llandybie (51/73a) • Llandybie (51/120) • Llanddarog (32/10) (2 bont) • Talog (1/23) • Cilmaenllwyd (4/20) • Pont Afon Dafen • Pont Droï Rhydaman 	
<p>Eitem 16 – Eitemau ar yr Agenda yn y Dyfodol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth • Map Cilffyrdd sy'n Agored i Unrhyw Draffig, gyda Statws Gweithredol • EDCL • Llwybr Dyffryn Tywi • Llinellau Melyn Dwbl ym Mhen-bre • Canŵ Cymru • Atebolrwydd cyhoeddus Fferm Wynt Brechfa • Bil Amaethyddol (os yw'n berthnasol ar y pryd) 	

Eitem 17 – Unrhyw Fater Arall

GW: A483 Ymgynghoriad ynghylch Mynediad Cyhoeddus yn Ffairfach. Roedd yn cynnwys holiadur ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn yr ardal. Roedd yr ymateb a roddwyd yn amlygu'r ffaith y bydd adeiladu'r ffordd osgoi arfaethedig yn effeithio'n ddifrifol ar gyfleoedd mynediad a pha ddefnydd a wneir o'r hen drac rheilffordd.

MH: Nid ymgynghorwyd â'r Fforwm Mynediad Lleol. Wedi e-bostio'r cwmni sy'n cynnal yr arolwg a anfonodd yr holiadur, a chanfod mai camsyniad ydoedd.

CF: Cafodd yr adain Hawliau Tramwy Cyhoeddus holiadur drwy'r Strategaeth Drafnidiaeth; ni chafodd ei anfon yn uniongyrchol at y tîm cywir.

KB: Wedi bod yn ymchwilio i wynebau ar gyfer llwybrau aml-ddefnyddiwr. Ymddengys mai nwwfalt yw'r datrysiad mwyaf poblogaidd ac uchaf ei fri.

CF: Gall fod cyfle i'w dreialu yn y Sir – wedi'i godi gyda'r adain Teithio Llesol.

RL: Wedi cylchredeg gwybodaeth am Ffyrdd Coll.

Eitem 18 – Cyfarfodydd nesaf

7 Mawrth 2019 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin

13 Mehefin 2019 - Canolfan Tywi, Llandeilo

19 Medi 2019 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin

5 Rhagfyr 2019 – Canolfan Tywi, Llandeilo.

Daeth y cyfarfod i ben am 21:10.